# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 7 a 14 Ebrill 2005

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


**2** **Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

**6** **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**8** **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

**13** **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**17** **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

**18** **Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid**

**20** **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**29** **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**39** **Cwestiynau i'r Trefnydd**

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne:** A fydd yn bolisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r bwriad i newid enwau'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chatrawd Brenhinol Cymru? (WAQ41485)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ohebiaeth, gan gynnwys cofnodion, sgyrsiau ffôn a gofnodwyd, negeseuon e-bost, memos, llythyrau ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig â thrafodaethau mewn perthynas â'r bwriad i newid enwau'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chatrawd Brenhinol Cymru? (WAQ41486)

**Nick Bourne:** A wnaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno sylwadau i'w chydweithwyr yn San Steffan ynghylch y bwriad i newid enwau'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chatrawd Brenhinol Cymru? (WAQ41487)

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael, os o gwbl, â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynghylch y bwriad i newid enwau'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chatrawd Brenhinol Cymru? (WAQ41488)

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr wyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd gennych am uno'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chatrawd Brenhinol Cymru.

Penderfyniad i'r fyddin yn gyfan gwbl oedd eu huno, ac mae wedi bod yn ystyried sut y dylid rhoi'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r newid i gatrawdau mwy, o fwy nag un bataliwn, ar waith. Cred y fyddin mai'r penderfyniad i uno yw'r un cywir ac mae newid i gatrawdau mwy yw'r unig ffordd ddichonadwy ymlaen. Nid yw'r rhain yn faterion i mi eu trafod gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Nid penderfyniad gwleidyddol ei natur ydoedd, ond penderfyniad a wnaed o safbwynt milwrol gweithredol.

Cyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf y byddai'r uno yn mynd rhagddo. Yn ystod y cyfnod yn arwain at y cyhoeddiad hwnnw, yr oeddwn yn cynghori unrhyw un a oedd yn ysgrifennu ataf fi ar y mater hwn mai'r lle priodol i gyflwyno sylwadau iddo oedd pwyllgor gweithredol bwrdd y fyddin. Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr un cyngor i bobl oedd wedi ysgrifennu ato ef.

Mae'r fyddin wedi ei gwneud yn glir ei bod yn ymrwymo i gynnal traddodiadau ac ethos y bataliynau yn y gatrawd newydd. Bydd hyn yn cynnwys gwaith pellach gan y gatrawd ei hun i sefydlu pa elfennau gaiff eu cadw i'r dyfodol i sicrhau bod hunaniaethau unigryw'r catrawdau hanesyddol yn cael eu cadw pan ddônt yn fataliynau o'r gatrawd ar ei newydd wedd.

O ran WAQ41486, byddaf yn ystyried eich cais ac yn ymateb maes o law.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Weinidog restru nifer yr ymrwymiadau yr aeth iddynt ym mhob etholaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r holl ymrwymiadau sydd ar y gweill tan fis Gorffennaf 2005? (WAQ41851)

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Y Prif Weinidog:** Dengys y tabl isod nifer yr ymrwymiadau rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mawrth 2005, fesul etholaeth, i bob Gweinidog ynghyd â'r nifer o ymrwymiadau sydd wedi'u cynllunio am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2005 a mis Gorffennaf 2005. Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ateb eich gofynion.

| | Prif Weinidog | | Jane Davidson AC | | Sue Essex AC | | Brian Gibbons AC /Jane Hutt AC | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Etholaeth** | **04/05** | **Ebrill – Gorff 05** | **04/05** | **Ebrill – Gorff 05** | **04/05** | **Ebrill – Gorff 05** | **04/05** | **Ebrill – Gorff 05** |
| Aberafan | 5 | 1 | 9 | 2 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | 3 | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Blaenau Gwent | 1 | 1 | 14 | 1 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | 5 | 0 | 16 | 2 | 6 | 3 | 5 | 3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3 | 0 | 6 | 0 | 3 | 0 | 3 | 0 |
| Caernarfon | 3 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Caerffili | 6 | 0 | 7 | 1 | 3 | 0 | 7 | 0 |
| Canol Caerdydd | 61 | 7 | 46 | 14 | 21 | 3 | 38 | 6 |
| Gogledd Caerdydd | 10 | 0 | 5 | 4 | 0 | 0 | 15 | 1 |
| Gorllewin Caerdydd | 7 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| De Caerdydd a Phenarth | 37 | 2 | 21 | 4 | 73 | 9 | 44 | 44 |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | 2 | 0 | 9 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 2 | 0 | 7 | 3 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| De Clwyd | 1 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gorllewin Clwyd | 1 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Conwy | 4 | 1 | 13 | 2 | 8 | 0 | 3 | 1 |
| Cwm Cynon | 4 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 |
| Delyn | 0 | 0 | 4 | 2 | 3 | 0 | 2 | 0 |
| Gwyr | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| Islwyn | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Llanelli | 1 | 0 | 5 | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 |
| Merionnydd Nant Conwy | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful & Rhymni | 4 | 0 | 3 | 1 | 3 | 0 | 7 | 0 |
| Mynwy | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Sir Drefaldwyn | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Castell-nedd | 0 | 0 | 4 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Dwyrain Casnewydd | 4 | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 2 | 0 |
| Gorllewin Casnewydd | 9 | 0 | 8 | 5 | 1 | 0 | 7 | 1 |
| Ogwr | 1 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pontypridd | 5 | 0 | 18 | 5 | 3 | 0 | 6 | 1 |
| Preseli Sir Benfro | 6 | 0 | 1 | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 |
| Rhondda | 1 | 0 | 6 | 1 | 4 | 0 | 2 | 0 |
| Dwyrain Abertawe | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0 |
| Gorllewin Abertawe | 10 | 1 | 10 | 5 | 8 | 0 | 6 | 0 |
| Tor-faen | 1 | 0 | 11 | 1 | 3 | 0 | 4 | 0 |
| Dyffryn Clwyd | 1 | 0 | 3 | 0 | 4 | 0 | 2 | 0 |
| Bro Morgannwg | 9 | 1 | 8 | 1 | 2 | 0 | 13 | 4 |
| Wrecsam | 6 | 0 | 9 | 2 | 4 | 0 | 5 | 2 |
| Ynys Môn | 2 | 0 | 1 | 0 | 3 | 0 | 0 | 1 |

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog restru ei ymrwymiadau swyddogol y tu allan i Gaerdydd ers 1 Ionawr 2005, gan nodi'r dyddiad, y lleoliad a'r dull teithio ym mhob achos? (WAQ42104)

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Y Prif Weinidog:** Dengys y tablau isod y nifer o ymrwymiadau yr wyf wedi ymgymryd â hwy y tu allan i Gaerdydd er 1 Ionawr 2005.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ateb eich gofynion.

**Prif Weinidog**

| Dyddiad | Ymrwymiad | Lleoliad | Dull Teithio |
|---|---|---|---|
| 12/01/05 | Sesiwn Cabinet meicroffon agored | Neuadd Goffa y Barri | car swyddogol |
| 20/01/05 | lansio compact diwygiedig Wrecsam | Neuadd Goffa Wrecsam | car swyddogol |
| 20/01/05 | ymweld â Airbus a'r ffatri orllewinol | Brychdwn | car swyddogol |
| 21/01/05 | agor uned adsefydlu newydd | Ysbyty Wrecsam Maelor | car swyddogol |
| 21/01/05 | mynychu Walkabout Wrecsam | Parc Caia, Wrecsam | car swyddogol |
| 27/01/05 | cinio'r Diwydiant Gwasanaethau Ariannol | Twr 42, 24 Old Broad Street, Llundain | trên/car Llywodraeth |
| 27/01/05 | Diwrnod Cenedlaethol Coffau'r Holocost | Westminster Hall, Llundain | car y Llywodraeth |
| 28/01/05 | annerch seremoni wobrwyo Qualtech | QED Centre, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest | car swyddogol |
| 04/02/05 | annerch cynhadledd gofalwyr a chyflogaeth Cymru | Orendy, Parc Margam | car swyddogol |
| 04/02 /05 | annerch aelodau byrddau iechyd lleol de-ddwyrain Cymru nad ydynt yn swyddogion | Gwesty Parkway, Casnewydd | car swyddogol |
| 09/02/05 | lansio'r strategaeth ar dlodi ymlith plant | Ysgol White Rose, New Tredegar | car swyddogol |
| 10/02/05 | mynychu cinio adolygiad Lyons | Reform Club, Llundain | car swyddogol |
| 10/02/05 | annerch Tywysog Cymru – digwyddiad busnes a'r amgylchedd | Llyn Dorney, Coleg Eton, Windsor | car swyddogol |
| 11/02/05 | mynychu dawns yr arglwydd faer | Gwbert-on-Sea, Aberteifi | car swyddogol |
| 13/02/05 | annerch dathliadau'r flwyddyn newydd Tsieineaidd | Neuadd y Brangwyn, Abertawe | car swyddogol |
| 17/02/05 | lansio arddangosfa 'Their past and Your Future' | Canolfan hamdden Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful | car swyddogol |
| 23/02/05 | mynychu cinio ymddeol Larry Johnson | Neuadd Vintners, Llundain | trên/car Llywodraeth |
| 25/02/05 | ymweld ag Ysgol Trinity Fields a'r Ganolfan Adnoddau | Ystrad Mynach | car swyddogol |
| 27/02/05 | cinio Dydd Gwyl Dewi – Cymdeithas Cymry Brwsel | Brwsel | car swyddogol/ awyren fasnachol/car Llywodraeth |
| 28/02/05 | dathliadau Dydd Gwyl Dewi | Brwsel | car Llywodraeth |
| 01/03/05 | ymweliad Dydd Gwyl Dewi â Lluoedd o Gymru yn Irac | Irac | Awyren fasnachol/MoD/car swyddogol |
| 03/03/05 | derbyniad Dydd Gwyl Dewi i Gorfflu Llysgenhadol y DU | Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, Llundain | trên/car Llywodraeth |

**Nick Bourne:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu o gwbl at yr agenda ar gyfer Llywyddiaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd o Orffennaf 2000 i Ragfyr 2005? (WAQ42234)

**Y Prif Weinidog:** Ymgynghorwyd â mi ynghylch yr agenda bolisi ar gyfer y Llywyddiaeth, pryd y bydd y DU yn ceisio sicrhau cynnydd ar draws agenda'r UE drwy gynnal Llywyddiaeth effeithiol, ddiduedd a phwrpasol. Ymgynghorwyd â mi hefyd ynghylch y rhestr o gyfarfodydd a gynhelir yn ystod y Llywyddiaeth. Bydd nifer ohonynt yn cael eu cynnal yng Nghymru.

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion y DU ynghylch cael gwared ar dlodi byd-eang ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny, neu ddweud pryd y mae'n bwriadu cael y trafodaethau? (WAQ42261)

**Y Prif Weinidog:** Nid yw hwn yn fater yr wyf wedi cael trafodaethau uniongyrchol arno gyda Gweinidogion y DU gan nad yw datblygu rhyngwladol yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli. Ar faterion yr ydym yn delio â hwy sy'n gallu helpu i ddileu tlodi, er enghraifft diwygio'r polisi amaethyddol cyffredinol, byddwn yn chwarae ein rhan.

**Nick Bourne:** Pryd y bwriedir cwblhau penodiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42284)

**Nick Bourne:** Ble fydd swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei hysbysebu, neu ble y'i hysbysebwyd os gwnaed hynny eisoes? (WAQ42285)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion yr hysbyseb sydd i ymddangos, neu sydd wedi ymddangos, mewn perthynas â phenodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42286)

**Nick Bourne:** A fydd gan y Prif Weinidog rôl yn y broses o gyfweld ymgeiswyr ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42287)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r dogfennau sy'n bodoli ar 17 Mawrth 2005 mewn perthynas â phenodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42288)

**Nick Bourne:** A fydd gan y Prif Weinidog feto ar benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42289)

**Nick Bourne:** Beth fydd rôl y Prif Weinidog yn y broses o benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42290)

**Nick Bourne:** Yn dilyn yr ymateb i WAQ41665, a wnaiff y Prif Weinidog nodi pam fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi penderfynu penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42291)

**Nick Bourne:** Beth oedd rôl yr Ysgrifennydd Parhaol yn y broses o benodi ail Gwnsler Cyffredinol, a beth fydd ei rôl yn y broses o benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42292)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ysgrifennu atoch ar y mater hwn.

**Nick Bourne:** A drafodwyd y penderfyniad i benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan y Cabinet? (WAQ42293)

**Y Prif Weinidog:** Rhoddais adroddiad i'r Cabinet ar y mater hwn o dan fy eitemau llafar.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ba drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch gwneud Dydd Gwyl Ddewi yn wyl banc yng Nghymru? (WAQ42296)

**Y Prif Weinidog:** Trafodais y mater hwn gyda Paul Murphy, pan oedd yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Nick Bourne:** A fydd swyddogion yn ymgynghori â'r Prif Weinidog cyn penodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42306)

**Nick Bourne:** Yn y cyfnod ers i'r Cwnsler Cyffredinol diwethaf ymddeol, pa drefniadau a wnaed i ddarparu gwasanaeth cyfreithiol, ar y lefel uchaf, i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac a wnaiff roi manylion am natur unrhyw benodiadau, cost y gwasanaeth hyd yma ac amcanestyniad o'r gost hyd nes y penodir Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol? (WAQ42308)

**Nick Bourne:** Yn dilyn ei ateb i WAQ41666, a wnaiff y Prif Weinidog gyhoeddi'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â phenodi ail Gwnsler Cyffredinol? (WAQ42309)

**Nick Bourne:** Yn dilyn yr ymateb i WAQ41665, sut y mae'r broses arfaethedig ar gyfer penodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn wahanol i'r broses benodi gynharach mewn perthynas â'r ymgais i benodi ail Gwnsler Cyffredinol? (WAQ42310)

**Nick Bourne:** Pryd y gwnaed y penderfyniad i benodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn hytrach na Chwnsler Cyffredinol? (WAQ42311)

**Nick Bourne:** Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rôl y swydd arfaethedig ar gyfer Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r swydd gynharach sef Cwnsler Cyffredinol. (WAQ42312)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ysgrifennu atoch ar y mater hwn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Kirsty Williams:** Pa gais am adnoddau y mae Cyngor Sir Powys wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig â chynlluniau nofio am ddim, a pha arian a roddwyd i'r awdurdod o ganlyniad i hynny? (WAQ41520)

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol ar draws Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno i ddogfen meini prawf penodedig a dyraniad cyllido sydd i gael ei ddosbarthu ar sail fformiwla y cytunwyd arni i'r diben o ddarparu nofio am ddim i blant a phobl ifanc a phobl 60 oed a throsodd.

Yn 2004-05, mae Cyngor Sir Powys wedi cytuno i grant o £107,791 i ddarparu nofio am ddim i blant a phobl ifanc. Caiff y swm hwn ei dalu i'r awdurdod mewn tri rhandaliad. Bydd yr awdurdod hefyd yn cael grant o £20,200 i ddarparu nofio am ddim i bobl 60 oed a throsodd am y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2004 a mis Mawrth 2005.

Yn ogystal, yn y flwyddyn ariannol hon, bydd Cyngor Sir Powys yn cael £10,000 at ddibenion cyhoeddusrwydd a marchnata, ac mae ganddo hawl hefyd i wneud cais am £3,750 tuag at gostau cyflogi cyd-drefnydd nofio am ddim.

Hefyd yn 2004-05, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn rheoli cronfa gyfalaf nofio am ddim y gwahoddwyd pob awdurdod lleol i wneud cais amdani. Deallaf fod grant o £15,000 wedi cael

ei ddyfarnu i Gyngor Sir Powys, a gyflwynodd gais, tuag at ailwampio ac uwchraddio cyfleusterau.

Mae cynllun hyfforddi yn cael ei roi ar waith hefyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar draws Cymru fel rhan o'r fenter nofio am ddim, gyda'r nod o wella sgiliau a chymwysterau yn ardal pob aawdurdod lleol.

**Nick Bourne:** Pa gymorth ariannol a chymorth arall y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi ar gyfer rygbi yng Nghymru? (WAQ41914)

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Alun Pugh:** Ers sefydlu Sportlot yn 1995, mae dros £5 miliwn o arian Sportlot wedi cael ei ddyfarnu i glybiau rygbi yng Nghymru. Mae rygbi hefyd yn un o'r saith camp sydd wedi'u cynnwys yn rhaglen Campau'r Ddraig Cyngor Chwaraeon Cymru, sy'n darparu cyfleoedd i ddegau o filoedd o blant ysgol gynradd bob blwyddyn ac yn hyfforddi rhieni, athrawon a gwirfoddolwyr eraill fel arweinwyr a hyfforddwyr.

Ym mlwyddyn ariannol 2003-04, cafodd Undeb Rygbi Menywod Cymru £69,000 o gymorth grant gan Gyngor Chwaraeon Cymru tuag at ei raglen ddatblygu ranbarthol, hyfforddiant cenedlaethol ac i gefnogi timau rhyngwladol.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithio gydag Undeb Rygbi Cymru i weithredu ei gynllun cyfleusterau, ac mae £1.5 miliwn o arian Sportlot wedi cael ei neilltuo er mwyn sefydlu canolfan genedlaethol. Mae rygbi'r undeb yn un o'r chwaraeon trywydd cyflym sy'n cael cymorth i roi tystysgrif hyfforddiant y DU ar waith. Mae'r Undeb Rygbi eisoes wedi derbyn £75,000 fel rhan o'r pecyn o gymorth y bydd yn ei gael i roi tystysgrif hyfforddiant y DU ar waith yng Nghymru. Bydd yr undeb yn un o'r prif gyrff fydd yn elwa o'r cynllun hyfforddiant i Gymru a'r £4 miliwn yr wyf wedi'i fuddsoddi er mwyn gwireddu'r cynllun dros y tair blynedd nesaf.

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru ei ymrwymiadau swyddogol y tu allan i Gaerdydd ers 1 Ionawr 2005, gan nodi'r dyddiad, y lleoliad a'r dull teithio ym mhob achos? (WAQ42112) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Y Prif Weinidog:** Dengys y tablau isod y nifer o ymrwymiadau y mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon wedi ymgymryd â hwy y tu allan i Gaerdydd er 1 Ionawr 2005.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ateb eich gofynion.

**Alun Pugh AC**

| **Dyddiad** | **Ymrwymiad** | **Lleoliad** | **Dull Teithio** |
|---|---|---|---|
| 17/1/05 | cyflwyno gwobr ysgol ryngwladol y Cyngor Prydeinig, a enillwyd gan Ysgol Glan Clwyd | Ffordd Dinbych, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0RP | car swyddogol |
| 17/1/05 | ymweld â Neuadd Hafodunos | gogledd Cymru | car swyddogol |
| 17/1/05 | dechrau'r gwaith adfer ar Dy Nantclwyd, Stryd y Castell, Rhuthun | gogledd Cymru | car swyddogol |
| 24/1/05 | sesiynau hyfforddiant gymnasteg | clwb gymnasteg Cwmcarn, Rhisga, drws nesaf i Ysgol Uwchradd Cwmcarn | car swyddogol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27/1/05 | bwrdd cynghori CyMAL | Uned 10, Y Parc Gwyddoniaeth, Cefn Llan, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3AH | car swyddogol |
| 28/1/05 | tynnu lluniau Theatr Parc and Dare | Treorci | car swyddogol |
| 31/1/05 | lansio 'Dringo'n Uwch' | arena chwaraeon dan do, Parc Singleton, drws nesaf i'r pwll cenedlaethol, Abertawe | car swyddogol |
| 03/2/05 | noson agored Bwrdd yr Iaith Gymraeg | Rhuthun, gogledd Cymru | ei gludiant ei hun |
| 06/02/05 | araith i Gyfeillion Gogledd Cymru Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru | Gwesty'r Risboro, Clement Avenue Llandudno | ei gludiant ei hun |
| 10/2/05 | cynllun gweithredu gweithgarwch corfforol Caerffili | Llancaiach Fawr, Caerffili | car swyddogol |
| 11/2/05 | annerch y seminar hyfforddiant datblygu chwaraeon i uwch swyddogion chwaraeon a hamdden o awdurdodau lleol Cymru | Canolfan Chwaraeon Dŵr Sir Benfro, Doc Penfro | car swyddogol |
| 24/2/05 | ymweld ag Oriel Plas Glyn y Weddw yn Llanbedrog | gogledd Cymru | car swyddogol |
| 24/2/05 | Cwpan Ryder Cymru, lansio cymynrodd (achlysur tynnu lluniau) | Cwrs Golff Dinesig Llangefni, Ynys Môn | car swyddogol |
| 24/2/05 | cyfarfod/cynigion yn ymwneud â chynlluniau i sefydlu oriel | Oriel Ynys Môn, Rhosmeirch, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TQ | car swyddogol |
| 03/03/05 | siarad yng nghynhadledd llyfrgelloedd a gwybodaeth Cymru 2005 | Gwesty'r Metropole, Llandrindod LD1 5DY | car swyddogol |
| 03/03/05 | cyhoeddi rhestr hir llyfr y flwyddyn | Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam, Clwyd LL11 1AU | car swyddogol |
| 05/03/05 | wythnos Cymraeg yn Gyntaf, gweithgareddau yn Rhuthun yn ymwneud â chystadleuaeth i fusnesau'r dref | Rhuthun, gogledd Cymru | ei gludiant ei hun |
| 10/3/05 | agor Theatr Elwy Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy | Ysgol Glan Clwyd, Ffordd Dinbych, Llanelwy, Sir Ddinbych LL15 1SB | ei gludiant ei hun |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**David Davies:** Pa ymdrechion y mae'r Gweinidog yn eu gwneud er mwyn sicrhau y gall busnesau bach mewn ardaloedd gwledig fanteisio ar gyswllt band eang? (WAQ41554)

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 22 Chwefror 2005.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae rhaglen Band Eang Cymru yn gymysgedd o brosiectau cyflenwad a galw sydd wedi'u bwriadu i helpu pobl a busnesau i wireddu manteision band eang. Yn arbennig, mae cynllun cymorth band eang Cymru gyfan i fusnesau bach a chanolig eu maint yn darparu cymorth ariannol o hyd at £3000 sydd ar gael i bob busnes bach a chanolig er mwyn iddynt allu manteisio ar fand eang drwy'r dechnoleg o'u dewis hwy. Hyd yma, mae'r cynllun (a'i ragflaenydd) wedi cefnogi dros 760 o geisiadau gan fusnesau o bob rhan o Gymru, llawer ohonynt mewn ardaloedd gwledig.

Ar ben hynny, mae rhaglen Band Eang Cymru wedi sicrhau cyfleusterau *Profi Cyn Prynu* ym mhob canolfan cymorth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghymru i helpu busnesau i sylweddoli a gweld manteision posibl band eang.

Yn olaf, mae prosiect o fewn y rhaglen a elwir yn gymorth band eang arloesol rhanbarthol a'i nod yw sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cyrchu at fand eang y genhedlaeth gyntaf o leiaf. Oherwydd natur a maint y prosiect, bu'n rhaid hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd amdano gan ei fod yn cael ei ystyried yn gymorth. Yr wyf yn disgwyl canlyniad y broses hysbysu erbyn mis Mai ac, os bydd yn llwyddiannus, bydd y broses gaffael yn dechrau wedyn.

**Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth busnesau o ran cefnogi economi leol canol trefi yng Nghymru? (WAQ41567)

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 22 Chwefror 2005.***

**Andrew Davies:** Mae'r canol trefi mwyaf llwyddiannus yn cynnwys cymysgedd iach o fathau o fusnesau, sy'n golygu darparwyr adwerthu, adloniant, hamdden a gwasanaethau ariannol. Mae'r cymysgedd hwn o fusnesau wrth graidd canol trefi deniadol a bywiog.

Mae gan fusnesau lleol swyddogaeth hollbwysig yn creu'r amodau sy'n sylfaen i ffyniant canol trefi ac economïau lleol.

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru ei ymrwymiadau swyddogol y tu allan i Gaerdydd ers 1 Ionawr 2005, gan nodi'r dyddiad, y lleoliad a'r dull teithio ym mhob achos? (WAQ42106) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Y Prif Weinidog:** Dengys y tablau isod y nifer o ymrwymiadau y mae'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi ymgymryd â hwy y tu allan i Gaerdydd er 1 Ionawr 2005.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ateb eich gofynion.

**Andrew Davies AC**

| **Dyddiad** | **Ymrwymiad** | **Lleoliad** | **Dull teithio** |
|---|---|---|---|
| 12-Ion-05 | Meicroffon Agored | Neuadd Goffa y Barri, Bro Morgannwg | Car swyddogol – O'r Bae i'r ymrwymiad yna aros dros nos yng Ngharno. |
| 13- Ion-05 | Agor Ffordd | Cam 2 yr A470 Dyffryn Lledr, Meirionnydd | Car swyddogol – O Garno, i'r ymrwymiad yna i Ysbysty Ifan. |
| 13- Ion-05 | Prosiect Melin Ysbyty Ifan | Meirionnydd | Car swyddogol – O agoriad yr A470 i'r ymrwymiad yna adref i Abertawe. |
| 17– Ion-05 | Inco Ltd, ymweld â safle Gwaith Mond Nickel | Clydach, Gwyr | Car swyddogol – O'i gartref i'r ymrwymiad i Barc Ynni Baglan. |
| 17- Ion-05 | Digwyddiad i'r diwydiant gan grwp llywio Technium Baglan | Parc Ynni Baglan, Aberafan. | Car swyddogol – O Glydach i'r ymrwymiad i Nantgarw. |
| 18- Ion-05 | Ceisiadau gofal plant cronfeydd strategol Ewropeaidd | Ysgol Gynradd Tonyrefail, Pontypridd. | Car swyddogol – O'i gartrefi i'r ymrwymiad yna i'r Bae. |
| 19- Ion-05 | Cinio gyda Corus & Sun Coke | Gwesty Morgan Abertawe. | Car swyddogol – O'r Bae i'r ymrwymiad yn Abertawe. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20- Ion-05 | Ymweliad biomas | Ysgol y Preseli, Crymych, Sir Benfro. | Car swyddogol – O'i gartref i'r ymrwymiad yn Llwynhendy, Llanelli. |
| 20- Ion-05 | Cyfarfod gyda Dave Gilbert (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerfyrddin) | Llwyn Hall, Llwynhendy, Llanelli, Sir Gaerfyrddin. | Car swyddogol – O Grymych i'r ymrwymiad ar Ystâd Ddiwydiannol Dafen, Llanelli. |
| 20- Ion-05 | Ymweliad â Promax Motorsport | Ystâd Ddiwydiannol Dafen, Llanelli. | Car swyddogol – O Llwyn Hall Llanelli i'r ymrwymiad yn Neuadd y Tymbl, ger Llanelli. |
| 20- Ion-05 | Lansio prosiect Amcan 1 PACT | Neuadd y Tymbl, Llanelli. | Car swyddogol – O Ystâd Ddiwydiannol Dafen, Llanelli i'r ymrwymiad yna i'w gartref. |
| 27- Ion-05 | Cinio'r Diwydiant Gwasanaethau Ariannol | Twr 42, 24 Old Broad St, Llundain EC2N 1HN. | Trên – Abertawe i Paddington.<br>Car Llywodraeth – Paddington i'r ymrwymiad, yna o'r ymrwymiad i Paddington.<br>Trên – Paddington i Abertawe. |
| 03-Chwe-05 | Ymweliad Amcan 1 | Ffatri'r Celfyddydau, Glyn Rhedynog, y Rhondda. | Car swyddogol – O Cathays i'r ymrwymiad yna'n ôl i'r Bae. |
| 04- Chwe-05 | Cyflwyniad ceir Jaguar | Coleg Gorseinon, Gwyr. | Trefniadau teithio'r Gweinidog ei hun. |
| 04- Chwe-05 | Lansio Digilab yn Abertawe | Ffordd Alexandra, Abertawe | Trefniadau teithio'r Gweinidog ei hun. |
| 10- Chwe-05 | Taith i Navarre – ymweliad yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy | Sbaen. | Car swyddogol – O'i gartref i Heathrow.<br>Awyren – Heathrow i Sbaen. |
| 14- Chwe-05 | Dychwelyd o Navarre – ymweliad yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy | Sbaen. | Awyren – Sbaen i Heathrow.<br>Car swyddogol – Heathrow i'w gartref. |
| 24- Chwe-05 | Cyfarfod Bwrdd Croeso Cymru | Gwesty'r Celt, Caernarfon. | Car swyddogol – Teithio o'r Bae y noson cynt ar gyfer yr ymrwymiad yn y bore, yna i Dechnium CAST Bangor. |
| 24- Chwe-05 | Lansio Technium TGCh – CAST | Bangor, Conwy. | Car swyddogol – O Westy'r Celt i'r ymrwymiad i Chwaraeon Dŵr gogledd Cymru, Bangor. |
| 24- Chwe-05 | Chwaraeon Dŵr Gogledd Cymru | Plas Menai, Bangor, Caernarfon. | Car swyddogol – O Dechnium Bangor i'r ymrwymiad ar Barc Busnes Llanelwy. |
| 24- Chwe-05 | Agor Technium Optig. | Parc Busnes Llanelwy, Clwyd | Car swyddogol – O Blas Menai Bangor i'r ymrwymiad yna'n ôl adref. |
| 25- Chwe-05 | Taith i Dubai – Digwyddiad Ynni a MasnachCymru Rhyngwladol. | Dubai | Car swyddogol – O'r Bae i'r Orsaf.<br>Trên – O'r orsaf i Heathrow.<br>Awyren – O Heathrow i Dubai. |
| 28- Chwe-05 | Dychwelyd o Dubai. | Dubai | Awyren – Dubai i Heathrow.<br>Car swyddogol – Heathrow i'w gartref. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 03-Maw-05 | Llais Diwydiant Blaenau Gwent | Clwb Rygbi Glynebwy. | Car swyddogol – O'i gartref i'r ymrwymiad yna i'r Ganolfan Arloesi. |
| 03- Maw-05 | Dathliad Paru Swyddi | Canolfan Arloesi Glynebwy | Car swyddogol – O Glwb Rygbi Glynebwy i'r ymrwymiad yna i Orsaf Parkway Glynebwy. |
| 03- Maw-05 | Gorsaf Parkway Glynebwy. | Safle Corus, Glynebwy. | Car swyddogol – O'r Ganolfan Arloesi i'r ymrwymiad. Am 12 p.m., aeth y car swyddogol â'r Ysgrifennydd Personol yn ôl i'r Bae. Arhosodd y Gweinidog ar gyfer ymrwymiad gwleidyddol. |
| 15- Maw-05 | Cyfarfod cyntaf grwp cynghori strategol sector y gwasanaethau ariannol dros Gymru | Miskin Manor. | Car swyddogol – O Orsaf Caerdydd i'r ymrwymiad yna'n ôl i'r Bae. |

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU ynghylch diogelwch ar y rheilffyrdd? (WAQ42262)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion y DU ynghylch diogelwch ar y rheilffyrdd.

Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am ddiogelwch y rheilffyrdd yng Nghymru. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r cwmnïau trenau yw hynny ar hyn o bryd ac, o dan Fesur y Rheilffyrdd, bydd y cyfrifoldebau blaenorol yn trosglwyddo i Swyddfa Reoleiddio'r Rheilffyrdd. Fodd bynnag, yr wyf wedi ariannu £2.5 miliwn i wella gorsafoedd yn y De a'r Canolbarth y llynedd, ac £1.5 miliwn ar gyfer rhaglen gyffelyb yn y Gogledd eleni. Mae hyn yn cynnwys teledu cylch cyfyng, mannau lle ceir help electronig ac arddangosfeydd gwybodaeth. Yr wyf yn darparu £2 filiwn i osod teledu cylch cyfyng ar holl drenau Trenau Arriva Cymru. Y llynedd hefyd cyhoeddais gyllid grant i benodi un o'r tri rheolwr diogelwch cymunedol ar draws rhanbarth gorllewinol Heddlu Trafnidiaeth Prydain, a bydd y swydd a ariennir yn cael ei lleoli yn y Gogledd. Yn ychwanegol at hyn, ar 21 Mawrth eleni, cymeradwyais grant newydd lle bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyd-ariannu arolygydd mewn lifrai i reoli presenoldeb gweithrediadol cryfach Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn y Gogledd.

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ42026, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y fenter rhieni unigol? (WAQ42299)

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ42026, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiect Menter Merched Cymru? (WAQ42302)

**Andrew Davies:** Mae'r naill a'r llall yn brosiectau rhagflaenu sefydlu busnes i Gymru gyfan, a sefydlwyd yn 2001, ac a weithredir gan Chwarae Teg. Mae'r Fenter Rhieni Unigol yn rhoi cymorth i ddynion a menywod fel rhan o brosiect ehangach Potentia sy'n cael ei reoli gan y WDA. Mae Menter Merched Cymru yn annog menywod i ddatblygu'r hyder i sefydlu busnesau gyda'r lefel briodol o gyngor a chymorth sy'n cysylltu â darparwyr prif ffrwd.

Mae Menter Merched Cymru wedi gweithio gyda 1,534 o fenywod ac, o'r rheini, mae 408 wedi sefydlu eu busnesau eu hunain ac wedi creu 611 o swyddi newydd. Mae'r fenter rhieni unigol wedi gweithio gyda 414 o bobl ac, o'r rheini, mae 39 wedi mynd ymlaen i sefydlu eu busnesau eu hunain a chreu 72 o swyddi newydd.

**Lisa Francis:** Pa waith asesu a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o effaith uno Bwrdd Croeso Cymru ar nodau ac amcanion strategaeth twristiaeth golff y bwrdd? (WAQ42300)

**Andrew Davies:** Bydd yr uno yn galluogi strategaeth twristiaeth golff y Bwrdd Croeso i barhau a, thrwy synergedd agosach â chwaraewyr allweddol yn yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, bydd yn darparu cyfleoedd pellach i'w datblygu.

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ42024, a wnaiff y Gweinidog roi manylion cynigion Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer fframwaith i farchnata Cymru ac a yw'r Gweinidog neu unrhyw un o'i swyddogion wedi cyfrannu at y gwaith hwn? (WAQ42301)

**Andrew Davies:** Nid yw'r fframwaith, sy'n fater gweithredol i'r Bwrdd Croeso, ond megis dechrau cael ei ddatblygu ac fe'i seilir ar yr egwyddor mai VisitBritain fydd yn arwain y gwaith marchnata mewn marchnadoedd newydd a marchnadoedd sy'n dechrau ymddangos megis Tsieina. Mae swyddogion y Bwrdd Croeso yn ceisio ffurfio cynghreiriau â phartneriaid teithio allweddol sydd â diddordeb yn y marchnadoedd hyn.

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ42028, a yw Bwrdd Croeso Cymru yn bwriadu cynnal ymchwil i werth twristiaeth ffilm i economi Cymru? (WAQ42303)

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ42028, beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gynyddu gwerth twristiaeth ffilm i economi Cymru? (WAQ42304)

**Andrew Davies:** Nid yw rhaglen ymchwil y Bwrdd Croeso yn cynnwys unrhyw ymchwil i werth twristiaeth ffilm i economi Cymru.

Mae'r comisiwn wedi ymwneud â sawl prosiect llwyddiannus ac mae lleoliadau yng Nghymru wedi ymddangos mewn nifer o ffilmiau mawr. Mae'r Bwrdd Croeso a'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol mewn sefyllfa dda i ddefnyddio'r lleoliadau hyn fel arf yn eu hymgyrchoedd marchnata.

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ42029, sut gafodd y 'ffigurau posibl' eu cyfrifo? (WAQ42305)

**Andrew Davies:** Cafodd y ffigurau posibl eu tynnu o strategaethau a chynlluniau gweithredu unigol ar gyfer pob un o'r cynhyrchion gweithgaredd a restrwyd. Yr ymgynghorwyr sydd wrthi'n datblygu'r gwahanol strategaethau fu'n gweithio ar y ffigurau posibl hyn ac maent wedi'u seilio'n bennaf ar gyfaint a gwerth y sectorau ar hyn o bryd.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a yw'n barod i symud Theatr y Torch i fyny'r rhestr wrth gefn ar gyfer Amcan 1? (WAQ42307)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wrthod £2 filiwn o arian Amcan 1 ar gyfer Theatr y Torch? (WAQ42314)

**Andrew Davies:** Cyflwynwyd cais Theatr y Torch am arian Amcan 1 fel rhan o gylch ymgeisio y cyflwynwyd llawer gormod o geisiadau ynddo. Nid yw cais Theatr y Torch wedi cael ei wrthod ar hyn o bryd—cafodd ei roi ar y rhestr wrth gefn, a chaiff ei adolygu yng nghyfarfod grwp cynghori thematig blaenoriaeth 5 o raglen Amcan 1 ym mis Gorffennaf. Mae blaenoriaethu ac arfarnu ceisiadau Amcan 1 yn broses annibynnol, a reolir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ac nid yw'r Gweinidogion yn dylanwadu arni.

**Lisa Francis:** Pa strategaethau sydd yn eu lle neu sy'n cael eu datblygu gan Fwrdd Croeso Cymru i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar dwristiaeth antur o ganlyniad i gostau yswiriant eithafol o uchel? (WAQ42313)

**Andrew Davies:** Mae'r Bwrdd Croeso wedi cynnal nifer o seminarau rheoli yswiriant i'r diwydiant er mwyn helpu i roi gwybod iddo am yr arferion gorau ac am faterion rheoli yswiriant.

**Lisa Francis:** Pa asesiad a wnaed gan Fwrdd Croeso Cymru o'r cyfraniad y mae twristiaeth yn ymwneud â cheffylau yn ei wneud i Gymru yn awr ac yn y dyfodol. (WAQ42319)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae Bwrdd Croeso Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd, neu'n bwriadu ei wneud, i hybu Twristiaeth yn ymwneud â Cheffylau? (WAQ42321)

**Andrew Davies:** Mae Strategaeth y Bwrdd Croeso ar Dwristiaeth yn Ymwneud â Cheffylau, Saddling Up for Success, yn amcangyfrif bod y gwariant ar farchogaeth yng Nghymru oddeutu £18.55 miliwn ar hyn o bryd. Os caiff y strategaeth ei gweithredu'n llawn, mae'n amcangyfrif y gallai hyn gynyddu i oddeutu £25 miliwn.

Fel rhan o'r strategaeth, mae'r Bwrdd Croeso wedi dyfarnu contract marchnata dwy flynedd i Gyngor Ceffylau Cymru i hyrwyddo'r sector hwn.

**Lisa Francis:** Pa ystyriaeth a roddwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru i ddarparu arian ar gyfer Cyngor Ceffylau Cymru? (WAQ42320)

**Andrew Davies:** Fe'm cynghorir nad oes cais wedi dod i law. Dim ond tuag at weithgareddau sy'n cyfrannu at y blaenoriaethau strategol yr wyf wedi'u gosod i'r asiantaeth y byddai cymorth yn cael ei ddarparu.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr ymrwymiadau yr aeth iddynt ym mhob etholaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r holl ymrwymiadau sydd ar y gweill tan fis Gorffennaf 2005? (WAQ41849) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ41851.

**Lisa Francis:** Ymhellach at WAQ41716, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y mae disgwyl i astudiaeth Estyn gael ei chwblhau? (WAQ42000)

**Lisa Francis:** Ymhellach at WAQ41716, a ydyw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried pennu isafswm oriau ar gyfer addysg rhyw? (WAQ42001)

**Lisa Francis:** Ymhellach at WAQ41716, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y nodau a'r amcanion a roddwyd i Estyn mewn perthynas â'u hastudiaeth i addysg rhyw a chydberthynas yng Nghymru? (WAQ42002)

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn blaenorol, WAQ41716, ynglŷn â'r nifer o oriau yr wythnos a neilltuir ar gyfer addysg rhyw yn y cwricwlwm. Fel a ddywedais, mae ein canllawiau i ysgolion ar y ddarpariaeth wedi'u nodi yn nhermau canlyniadau dysgu yn hytrach na bod cyfnod penodedig o amser i gael ei dreulio ar y pwnc. Wrth gynllunio sut y maent yn mynd i roi addysg

bersonol a chymdeithasol ar waith, bydd yr awdurdodau addysg lleol ac ysgolion yn ystyried eu hamgylchiadau a'u blaenoriaethau lleol, ac, felly, yr wyf yn awyddus i'r AALlau a'r ysgolion gael yr hyblygrwydd i gyflwyno ABCh mewn ffordd sy'n gweddu i'w hanghenion, tra ar yr un pryd yn adlewyrchu'r arferion gorau sy'n cael eu rhannu. Mater i bob ysgol ac AALl unigol yw penderfynu faint o amser i'w neilltuo i bob agwedd o'r fframwaith ABCh.

Nid oes gennyf gynlluniau ar hyn o bryd i bennu nifer gofynnol o oriau sydd i'w neilltuo ar gyfer addysg rhyw a pherthnasoedd. Fodd bynnag, comisiynais Estyn i gynnal astudiaeth benodol o addysg rhyw a pherthnasoedd yn ysgolion Cymru a fyddai'n edrych ar ba mor dda yr oedd ysgolion yn dilyn y canllawiau a osodwyd yng nghylchlythyr 11/02, 'Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion'.

Wrth ymgymryd â'r astudiaeth, byddai Estyn yn canolbwyntio ar:

- ddadansoddi'r holl adroddiadau arolygu adran 10 am ysgolion uwchradd ac 20 y cant o'r adroddiad am ysgolion cynradd rhwng mis Medi 2003 a mid Medi 2004 i weld i ba raddau y mae'r ysgolion yn cydymffurfio â chylchlythyr 11/02
- cwrdd â chynrychiolwyr o grwpiau cynghori ABCh Cymru
- ymweliadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd dethol ar sail tystiolaeth a gafwyd o'r adroddiadau arolygu; a chyfarfodydd/cyfweliadau ffôn gyda phersonél iechyd rhywiol allweddol o sampl cenedlaethol o awdurdodau iechyd ardal.

Câi tystiolaeth ychwanegol ei chasglu o gyfweliadau ffôn gyda chynghorwyr o grwp cynghori ABCh Cymru, prifathrawon, cyd-drefnwyr ABCh ysgolion, byddid yn ymweld ag ymgynghorydd ABCh y gwasanaeth gwella ysgolion ym mhob ardal, ac â'r cyd-drefnydd iechyd rhywiol yn yr awdurdod iechyd ardal.

Câi ystyriaeth ei rhoi i:

- faint o amser y mae ysgolion yn ei dreulio ar addysg rhyw a pherthnasoedd
- ym mha flynyddoedd ysgol y mae'n cael ei darparu
- agweddau hyfforddi
- pwy sy'n cyflwyno'r addysg
- cysylltiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol
- cysylltiadau â mudiadau ieuenctid
- cynnwys rhieni a chyfathrebu â hwy.

Erbyn hyn mae Estyn wedi cwblhau'r astudiaeth. Yn gyntaf rhaid i'r adroddiad drafft gael ei gymeradwyo gan Brif Arolygydd Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru. Nod Estyn yw cyhoeddi'r adroddiad erbyn diwedd mis Ebrill. Byddaf yn disgwyl am ffrwyth yr astudiaeth ac yn ystyried unrhyw argymhellion a wneir gan Estyn o ganlyniad iddi.

**Val Lloyd:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hyrwyddo'r ymwybyddiaeth o thrombosis gwythiennau dwfn (DVT) ymysg y cyhoedd yng Nghymru? (WAQ42276)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu nifer o strategaethau a pholisïau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a gweithgareddau, gyda'r nod o leihau'r risg o afiechyd ymysg poblogaeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys camau sy'n berthnasol i atal thrombosis rhag datblygu yn y lle cyntaf.

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41943 a WAQ41944, a oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i gasglu'r wybodaeth hon yn y dyfodol? (WAQ42294)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn hwylus ac nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i'w chasglu.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch effeithiau niweidiol fflworideiddio? (WAQ42315)

**Brian Gibbons:** Comisiynodd Llywodraeth y DU adolygiad o'r dystiolaeth am y berthynas rhwng fflworid ac iechyd, sy'n adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, oddi wrth Ganolfan Adolygiadau a Lledaenu'r GIG ym Mhrifysgol Efrog. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ym mis Hydref 2000. Mae fy swyddogion wedi rhoi cyngor ar yr adolygiad sy'n darparu sylfaen dystiolaeth awdurdodol am fflworideiddio.

Un effaith andwyol sy'n gysylltiedig â fflworideiddio dŵr yw risg uwch o fflworosis deintyddol—sef brychni ar y dannedd. Lle mae fflworosis yn annerbyniol yn gosmetig mae modd cael gwared â'r effaith yn aml drwy driniaeth ddeintyddol arferol.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu amserlen ar gyfer gweithredu'r contract newydd i ymgynghorwyr ysbytai fel y gellir eu talu am oramser? (WAQ42316)

**Brian Gibbons:** Mae cyflogwyr ymgynghorwyr yng Nghymru yn trefnu'r holl daliadau i'w hymgynghorwyr yn unol â'r trefniadau cyflogres hwy eu hunain yn lleol. O ran y contract diwygiedig, sydd, am y tro cyntaf, yn cydnabod ac yn talu goramser i ymgynghorwyr, mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo 13 o'r 14 o gynigion gan Ymddiriedolaethau neu fyrddau iechyd lleol, sy'n golygu y bydd rhai ymgynghorwyr wedi derbyn eu taliadau ym mis Mawrth ac y bydd y mwyafrif helaeth wedi gwneud hynny erbyn diwedd mis Ebrill.

**David Lloyd:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith cost presgripsiynau ar bobl â chyflwr hirdymor yn dilyn newid yr arfer sy'n golygu bod meddygon bellach yn rhoi presgripsiynau bob mis yn hytrach na phob deufis? (WAQ42317)

**Brian Gibbons:** Nid oes gan y Cynulliad unrhyw reolau ar ba mor hir yw'r cyfnod y dylid rhoi presgripsiynau ar ei gyfer. Mater i farn glinigol y sawl sy'n rhoi'r presgripsiwn yw hwn, ac ystyried natur y cwrs triniaeth, a phethau megis monitro cleifion a diogelwch, a diogeledd cyffuriau a sicrhau eu bod yn cael eu storio'n briodol. Gyda meddyginiaeth dymor hir cyflenwad mis ar y tro sy'n cael ei roi fel arfer, ond mae modd amrywio hyn ar ddisgresiwn y sawl sy'n rhoi'r presgripsiwn yng ngoleuni amgylchiadau unigol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddileu taliadau presgripsiwn yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar a yw unrhyw rai o argymhellion Fframwaith Strategol Cenedlaethol Lloegr ynghylch cyflyrau hirdymor yn briodol i Gymru yn farn ef? (WAQ42325)

**Brian Gibbons:** Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i gyflyrau tymor hir yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion pobl sydd â chyflyrau niwrolegol. Mae Comisiwn Iechyd Cymru ar gamau terfynol ei adolygiad strategol o wasanaethau niwrowyddorau yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn help tuag at fframwaith a fydd yn cael ei ddatblygu i roi sylw i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ehangach pobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig yng Nghymru, yn cynnwys cyflyrau niwrolegol tymor hir. Bydd y fframwaith yn ystyried egwyddorion ac argymhellion ehangach y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i gyflyrau tymor hir yn Lloegr.

**Rhodri Glyn Thomas:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i sefydlu targed recriwtio ar gyfer deintyddion y GIG? (WAQ42326)

**Brian Gibbons:** Bydd yn ystyried effeithiolrwydd targed recriwtio i ddeintyddion GIG unwaith y bydd goblygiadau'r contract deintyddol newydd o ran y gweithlu yn glir.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru ei hymrwymiadau swyddogol y tu allan i Gaerdydd ers 1 Ionawr 2005, gan nodi'r dyddiad, y lleoliad a'r dull teithio ym mhob achos? (WAQ42110) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro***.

**Y Prif Weinidog:** Dengys y tablau isod y nifer o ymrwymiadau y mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi ymgymryd â hwy y tu allan i Gaerdydd er 1 Ionawr 2005.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ateb eich gofynion.

**Edwina Hart AC**

| Dyddiad | Ymrwymiad | Lleoliad | Dull Teithio |
|---|---|---|---|
| 12/01/05 | meicroffon agored | Neuadd Goffa'r Barri, Gladstone Rd | car swyddogol |
| 20/01/05 | cyfarfod gyda'r awdurdodau tân | pencadlys y frigâd, Neuadd Glanelái , Pont-y-clun | car swyddogol |
| 27/01/05 | ymweld â phrosiect Cymunedau yn Gyntaf | Ysgol Gynradd Cil-maen, Penfro | car swyddogol |
| 27/01/05 | ymweld â phrosiect Cymunedau yn Gyntaf | Doc Penfro, Ystâd Bush a Park | car swyddogol |
| 03/02/05 | anerchiad—Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru-seminar ymwybyddiaeth o danau bwriadol SavelT | Theatr Mwldan, Aberteifi | car swyddogol |
| 03/02/05 | ymweliadau gyda maer Ceredigion â chynlluniau yng nghanol y dref | Aberteifi | car swyddogol |
| 16/02/05 | cwrdd â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | Y Mans, Tyddyn St, yr Wyddgrug, Sir y Fflint | car swyddogol |
| 16/02/05 | ymweld â safle adfywio | Y Fflint | car swyddogol |
| 17/02/05 | Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru—seminar brecwast | Gwesty'r Imperial, Llandudno | car swyddogol |
| 17/02/05 | siarad yng nghynhadledd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru | Canolfan Gynadledda Gogledd Cymru, Llandudno | car swyddogol |
| 24/02/05 | siarad yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Cymdeithas Pobl Ifanc a Phlant Sir Gaerfyrddin | Canolfan Antioch, Llanelli | car swyddogol |
| 01/03/05 | cinio Dydd Gwyl Dewi | Y Barics, Aberhonddu | car swyddogol |
| 04/03/05 | siarad yng nghyfarfod cyngor Abertawe o Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorwyr Hawliau Lles | Neuadd y Sir, Abertawe | car y Gweinidog |
| 10/03/05 | Cyngor Ffoaduriaid Cymru—lansio prosiect amlasiantaethol Abertawe | Grove House, Grove Place, Abertawe | car swyddogol |
| 10/03/05 | ymweld â'r tîm yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n gweithio i ostwng y nifer o danau bwriadol | Gorsaf dân Treforys, Sway Rd | car swyddogol |
| 10/03/05 | ymweld â menter cwm Aman | 1 Quay St, Rhydaman, | car swyddogol |
| 11/03/05 | cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol | Prifysgol Aberystwyth | car swyddogol |

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y lleihad yn nifer y dynion tân yn Sir Benfro? (WAQ42283)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Fel a nodais yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y fframwaith cenedlaethol i'r gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru ar 16 Mawrth 2005, yr wyf wedi ysgrifennu at Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru am ei gynigion, yn cynnwys y cynigion hynny sy'n ymwneud â gorsaf dân Hwlffordd.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gost llety dros dro ar gyfer pobl ddigartref yng (a) Nghymru gyfan ac yng (b) Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ar gyfer pob blwyddyn ers 1997. (WAQ42328)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn atodi'r ffigurau am wariant yr awdurdodau lleol ar ddigartrefedd ers creu'r Cynulliad yn 1999, ynghyd â dadansoddiad o'r symiau a wariwyd ar weinyddiaeth a llety dros dro hyd at 2002-03.

Cyfanswm y Gwariant ar Ddigartrefedd ym Mhowys a Cheredigion

**Gwariant awdurdodau lleol ar ddigartrefedd (a) (£000)**

| | 1999-2000 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 |
|---|---|---|---|---|---|
| Powys | 124 | 104 | 147 | 143 | 172 |
| Ceredigion | 147 | 203 | 180 | 138 | 156 |
| Cymru | 4,090 | 4,008 | 4,516 | 5,927 | 8,609 |

*(a)* Yn cynnwys costau llety a gweinyddu digartrefedd

**Gwariant awdurdodau lleol ar ddigartrefedd (£000)**

| | Llety | | | | Gweinyddu digartrefedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1999-00 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 1999-00 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 |
| Ynys Môn | 153 | 162 | 139 | 27 | 0 | 1 | 0 | 155 |
| Gwynedd | 27 | 40 | 49 | 67 | 0 | 0 | 80 | 74 |
| Conwy | 113 | 124 | 217 | 192 | 109 | 128 | 58 | 112 |
| Sir Ddinbych | 77 | 72 | 127 | 182 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 27 | 138 | 151 | 145 | 256 | 155 | 146 | 152 |
| Wrecsam | 92 | 5 | 29 | 83 | 58 | 72 | 66 | 72 |
| Powys | 17 | 4 | 47 | 31 | 107 | 100 | 100 | 112 |
| Ceredigion | 101 | 264 | 99 | 32 | 46 | -61 | 81 | 106 |
| Sir Benfro | 48 | 95 | 49 | 148 | 77 | 90 | 65 | 93 |
| Sir Gaerfyrddin | 130 | 84 | 138 | 117 | 30 | 48 | 44 | 107 |
| Abertawe | 48 | 169 | 160 | 85 | 502 | 249 | 250 | 409 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 70 | 73 | 105 | 134 | 31 | 44 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 29 | 31 | 0 | 0 | 56 | 60 | 100 | 40 |
| Bro Morgannwg | 128 | 122 | 133 | 150 | 0 | 41 | 151 | 166 |
| Rhondda Cynon Taf | 10 | 15 | 32 | 33 | 210 | 253 | 251 | 259 |
| Merthyr Tudful | 39 | 31 | 38 | 33 | 9 | 14 | 17 | 46 |
| Caerffili | 159 | 155 | 164 | 131 | 131 | 60 | 66 | 64 |
| Blaenau Gwent | 71 | 41 | 67 | 71 | 109 | 94 | 93 | 102 |
| Tor-faen | 0 | 0 | 0 | 35 | 5 | 5 | 5 | 80 |
| Sir Fynwy | 21 | 21 | 41 | 41 | 129 | 116 | 108 | 124 |
| Casnewydd | 13 | 58 | 61 | 106 | 107 | 70 | 84 | 156 |
| Caerdydd | 309 | 29 | 0 | 600 | 432 | 719 | 909 | 1,071 |
| Cymru | 1,612 | 1,660 | 1,811 | 2,382 | 2,478 | 2,348 | 2,705 | 3,544 |

(a) Nid oes gwybodaeth ar gael am 2003-04 am y rhaniad rhwng llety i bobl ddigartref a'r gwaith gweinyddol.

**Lisa Francis:** Gan gyfeirio at WAQ42056, a wnaiff y Gweinidog ddarparu'r rhestr o brosiectau ynghyd â'u nodau a'u hamcanion? (WAQ42329)

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd yr ydym yn ariannu 16 o brosiectau yn ardal y Canolbarth a'r Gorllewin. Manylir ar y prosiectau yr ydym yn eu hariannu yn yr ardaloedd hyn ynghyd â'u nodau a'u hamcanion yn y rhestr sydd ynghlwm.

Prosiectau Ad 180 fesul Awdurdod Lleol

| Awdurdod lleol | Enw'r prosiect | Corff | Nodau ac Amcanion |
|---|---|---|---|
| **Sir Gaerfyrddin**<br><br><br><br><br>**Sir Gaerfyrddin** | Gwasanaeth cyfryngu i bobl ifanc<br><br><br><br><br>Bwrdd bondiau Sir Gaerfyrddin | Cymuned Wallich Clifford<br><br><br><br><br>Tai Trothwy Cyfyngedig | Atal digartrefedd ymysg pobl ifanc a achosir am fod teuluoedd yn chwalu, drwy ddarparu gwasanaeth cyfryngu drwy'r sir gyfan i Gyngor Sir Caerfyrddin.<br>Cynllun bondiau i ostwng lefel digartrefedd yn y sir drwy hwyluso mynediad i lety preifat ar rent a dewis. |
| **Sir Gaerfyrddin** | Gwasanaeth cynghori Sir Gaerfyrddin ym maes tai | Shelter Cymru | Cyllid i gynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yn Sir Gaerfyrddin, gyda sicrwydd ansawdd. |
| **Ceredigion** | Gweithiwr atebion allymestyn | Cymuned Wallich Clifford | Cysylltu â'r rhai sy'n agored i niwed o ran eu darpariaeth dai—yn cynnwys y rhai sy'n cysgu ar y stryd ac sy'n 'byw ar y stryd' yn gyffredinol—drwy ddarparu asesiad cynhwysfawr o'u hangen am gymorth a helpu i ddarparu atebion. |
| **Ceredigion** | Menter Ceredigion i'r rhai heb do uwch eu pen | Cymdeithas Gofal Ceredigion | Darparu lloches nos argyfwng a phrosiect adsefydlu. |
| **Ceredigion** | Swyddog llety | Cymdeithas Gofal Ceredigion | Cynyddu'r opsiynau tai i gleientiaid sy'n dod i swyddfeydd yr awdurdod lleol neu'r gymdeithas gofal gydag anghenion digartrefedd. |
| **Ceredigion** | Cynllun bondiau | Cymdeithas Gofal Ceredigion | Galluogi pobl sengl o ardal Ceredigion sy'n cael budd-dalidau a phobl rhwng 16 a 65 oed, nad oes dyletswydd statudol tuag atynt, i gyrchu at lety ar rent yn y sector preifat. |
| **Ceredigion** | Gwasanaeth cynghori Ceredigion ym maes tai | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yng Ngheredigion, gyda sicrwydd ansawdd. |
| **Sir Benfro** | Gwasanaeth Cynghori ac Adsefydlu | Gweithredu dros Bobl Ddigartref, Sir Benfro | Darparu gwasanaeth cynghori, adsefydlu a chynllun bondiau i bobl ddigartref yn Sir Benfro. |
| **Sir Benfro** | Gwasanaeth cynghori Sir Benfro ym maes tai | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yn Sir Benfro, gyda sicrwydd ansawdd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Powys** | Cynllun Gwarant Blaendal Powys | Tai Trothwy Cyfyngedig | Cynllun Bondiau yn y tri rhanbarth, Sir Faesyfed, Sir Frycheiniog a Sir Drefaldwyn. |
| **Abertawe** | Gwaith allgymorth amlddisgyblaethol yn ymwneud â mynediad | Caer Las Cymru | Darparu gwasanaeth allgymorth teithiol amlddisgyblaethol saith diwrnod yr wythnos ynghyd â gwasanaeth taro-mewn. |
| **Abertawe** | Gwasanaeth tai, adsefydlu ac iechyd | Big Issue Cymru | Darparu cymorth a chefnogaeth i werthwyr Big Issue. |
| **Abertawe** | Bwrdd bondiau Abertawe | Cymuned Wallich Clifford | Darparu cynllun bondiau i alluogi pobl i gyrchu at lety preifat ar rent, yn cynnwys cefnogi landlordiaid. |
| **Abertawe** | Gwasanaeth digartrefedd a chyfryngu i bobl ifanc | Barnardo's Cymru | Atal digartrefedd drwy gyfryngu teuluol a chyfeirio pobl ifanc 16-21 oed oddi wrth lety dros dro ac i lety annibynnol. |
| **Abertawe** | Tîm ymyrryd cysgu ar y stryd Abertawe | Cymuned Wallich Clifford | Darparu gwasanaeth allgymorth ben bore saith diwrnod yr wythnos i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd yn Ninas a Sir Abertawe. |

| **Ardal** | **Enw'r Prosiect** | **Corff sy'n Ymgymryd â'r Prosiect** | **Pwrpas y prosiect** |
|---|---|---|---|
| Cymru gyfan | Prosiect tai teilwng i ffoaduriaid | Cyngor Ffoaduriaid Cymru | Ariannu cynllun i Gymru gyfan i ddatblygu, hyrwyddo a darparu cyngor arbenigol a phriodol ar dai i ffoaduriaid a chynnig cymorth i symud ymlaen o lety'r Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ffoaduriaid. |
| Cymru gyfan | Cyswllt Carchardai Cymru | Tai Trothwy Cyfyngedig | Darparu gwasanaeth wedi'i gyd-drefnu i awdurdodau lleol yng Nghymru fel eu bod yn cael gwybodaeth amserol am garcharorion sydd ar fin cael eu rhyddhau ac i roi cyngor ail lefel i swyddogion carchardai. |
| Cymru gyfan | Prosiect 'Homeworks' | Shelter Cymru | Sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwell gwybodaeth a fydd yn golygu eu bod yn gwybod mwy am y materion sy'n berthnasol i ddigartrefedd. |
| Cymru gyfan | Strategaeth y fforwm lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol | Triongl Cymru | Comisiynu ymchwil i anghenion tai lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol yng Nghymru. |
| Cymru gyfan | Hyfforddiant | Shelter Cymru | Galluogi gwasanaethau hyfforddi Shelter Cymru i gynnig hyfforddiant ar dai a budd-daliadau yng Nghymru. |
| Cymru gyfan | Cynllun cynghori Triongl ym maes tai | Tai Trothwy Cyfyngedig | Darparu gwasanaeth cynghori arbenigol ym maes tai i lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol. |
| Cymru gyfan | Homeless Link | Homeless Link Cymru | Galluogi Homeless Link i gefnogi a chynrychioli ei aelodau—asiantaethau digartrefedd rheng flaen—yng Nghymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru gyfan | Tai Dysgu a Gwaith Cymru | Tai Dysgu a Gwaith Cymru | Cefnogi cyfnod cychwyn cymdeithas genedlaethol newydd ar gyfer prosiectau yng Nghymru sy’n darparu gwasanaeth integredig ar ffurf tai â chymorth a hyfforddiant i bobl ddigartref. |
| Blaenau Gwent | Cyd-drefnydd arbenigol ymchwil a datblygu | Cymorth i Fenywod Sir Fynwy Cyf. | Ymchwilio i’r bylchau yn y gwasanaethau ym Mlaenau Gwent i fenywod sy’n cael eu cam-drin yn y cartref a’r rheini na ellir rhoi llety iddynt yn lloches WAIMON oherwydd problemau iechyd meddwl, cyffuriau neu alcohol. |
| Blaenau Gwent | Cymorth iechyd meddwl a digartrefedd | Cyngor Gofal Cymru | Cyflogi gweithiwr arbenigol iechyd meddwl a digartrefedd i roi cyngor. |
| Blaenau Gwent | Gwasanaeth cynghori Blaenau Gwent ym maes tai | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai ym Mlaenau Gwent, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Gweithiwr atebion | Cymuned Wallich Clifford | Cysylltu â’r rhai sy’n agored i niwed o ran eu darpariaeth dai, yn cynnwys y rhai sy’n cysgu ar y stryd ac sy’n ‘byw ar y stryd’ yn gyffredinol, darparu asesiad cynhwysfawr o’u hangen am gymorth a helpu i ddarparu atebion. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Cynllun bondiau Pen-y-bont ar Ogwr | Cymuned Wallich Clifford | Galluogi pobl na fyddent fel arall yn gael cael llety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Cyngor ar dai ym Mhen-y-bont ar Ogwr | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Tîm ymyrryd Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y rhai sy’n cysgu ar y stryd | Cymuned Wallich Clifford | Cyllid i ddarparu gwasanaeth brecwast ym Mhen-y-bont ar Ogwr o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd y prosiect yn darparu cymorth dyngarol, yn rhoi cyngor ac yn cysylltu ag asiantaethau perthnasol ar ran y cleientiaid hyn. |
| Caerffili | Gwasanaeth cynghori Caerffili ym maes tai | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yng Nghaerffili, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Caerffili | Cynllun bondiau Caerffili | Tai Trothwy Cyfyngedig | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Caerffili | Gweithiwr cymorth iechyd meddwl a chynghori | Cyngor Gofal Cymru | Cyflogi gweithiwr arbenigol iechyd meddwl a digartrefedd i roi cyngor. |
| Caerdydd | Prosiect y bws allgymorth | Byddin yr Iachawdwriaeth | Datblygu gwasanaeth allgymorth amlasiantaethol ymhellach i helpu’r rhai mwyaf agored i newid ac eithriedig sy’n cysgu ar y stryd. |
| Caerdydd | Prosiect opsiynau tai | Llamau Cyfyngedig | Darparu cyngor i bobl ifanc drwy gymorthfeydd prynhawn ar amryw o faterion tai a budd-daliadau. |
| Caerdydd | Prosiect Jigso | Llamau Cyfyngedig | Mae prosiect Jigso yn darparu cyngor ar dai a budd-daliadau, cynllun bondiau, cymorth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | adsefydlu, cyfryngu teuluol a chynllun llety cyfeillgar. |
| Caerdydd | Canolfan Huggard—canolfan mynediad agored | Cardiff Action for the Single Homeless | Darparu gwasanaethau sylfaenol i bobl ddigartref megis golchdy, prydau am ddim, cawodydd a dillad glân o fewn canolfan ddydd. |
| Caerdydd | Bwrdd bondiau Caerydd | Bwrdd bondiau Caerdydd | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Caerdydd | Tîm ymyrryd Caerdydd ar gyfer y rhai sy'n cysgu ar y stryd | Cymuned Wallich Clifford | Cyllid i ddarparu gwasanaeth brecwast yn Nghanol Dinas Caerdydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd y prosiect yn darparu cymorth dyngarol, yn rhoi cyngor ac yn cysylltu ag asiantaethau perthnasol ar ran y cleientiaid hyn. |
| Caerdydd | Gwasanaeth tai, adsefydlu ac iechyd | Big Issue Cymru | Darparu help a chefnogaeth i werthwyr Big Issue yn ardal Caerdydd. |
| Caerdydd | Darpariaeth tywydd oer | Byddin yr Iachawdwriaeth | Gweinyddu'r ddarpariaeth tywydd oer rhwng 1 Tachwedd ac 1 Ebrill. |
| Caerdydd | Lloches nos Caerdydd | Cardiff Action for the Single Homeless | Parhau â gwaith y ganolfan nos – darparu ymateb brys i'r problemau y mae pobl agored i niwed sy'n cysgu ar y stryd yn eu hwynebu yn ystod misoedd y gaeaf. |
| Caerdydd | Allgymorth, cyngor a gwybodaeth am dai i Somalïaid | Somali Progressive Association | Darparu cyngor, gwybodaeth a gwasanaeth allgymorth arbenigol i Somalïaid yng Nghaerdydd. |
| Caerdydd | Ty Tresillian | Cyngor Sir Caerdydd | Darparu cyngor ar dai i'r rhai nad ydynt yn breswylwyr yn Nhy Treillian, hunangyfeiriadau a chyfeiriadau o asiantaethau eraill. |
| Sir Gaerfyrddin | Gwasanaeth cyfryngu i bobl ifanc | Cymuned Wallich Clifford | Atal digartrefedd ymysg pobl ifanc am fod teuluoedd yn chwalu, gan ddarparu gwasanaeth cyfryngu ar hyd a lled y sir. |
| Sir Gaerfyrddin | Bwrdd bondiau Sir Gaerfyrddin | Tai Trothwy Cyfyngedig | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Sir Gaerfyrddin | Gwasanaeth cynghori Sir Gaerfyrddin ym maes tai | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yn Sir Gaerfyrddin, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Ceredigion | Gweithiwr atebion allgymorth | Cymuned Wallich Clifford | Cysylltu â'r rhai sy'n agored i niwed o ran eu darpariaeth dai, yn cynnwys y rhai sy'n cysgu ar y stryd ac sy'n 'byw ar y stryd' yn gyffredinol, darparu asesiad cynhwysfawr o'u hangen am gymorth a helpu i ddarparu atebion. |
| Ceredigion | Menter Ceredigion i'r rhai heb do uwch eu pen | Cymdeithas Gofal Ceredigion | Darparu lloches gaeaf. |
| Ceredigion | Swyddog llety | Cymdeithas Gofal Ceredigion | Hyrwyddo cynllun bondiau a gwasanaethau cysylltiol a recriwtio landlordiaid ac eiddo i'r prosiect. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ceredigion | Cynllun bondiau | Cymdeithas Gofal Ceredigion | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Ceredigion | Gwasanaeth cynghori Ceredigion ym maes tai | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yng Ngheredigion, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Conwy | Cyngor annibynnol cymunedol am dai | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yng Nghonwy, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Conwy | Cynllun atal digartrefedd ymysg pobl ifanc | NACRO Cymru | Darparu cyngor, cymorth, eiriolaeth ac ymyriadau priodol i bobl ifanc, 16-25 oed sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. |
| Conwy | Prosiect digartrefedd pobl ifanc | Cymdeithas Tai Clwyd | Gweithio gyda a sicrhau cyfranogiad gweithredol a dylanwad gwirioneddol pobl ifanc yn y systemau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd, sy'n gallu arwain at allgáu cymdeithasol. |
| Conwy a Sir Ddinbych | Bwrdd bondiau Conwy a Sir Ddinbych | NACRO Cymru | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Sir Ddinbych | Lloches nos argyfwng y Rhyl | NACRO Cymru | Ariannu costau rhedeg y lloches nos, sef bwyd, trethi dŵr a chostau eraill na cheir eu talu drwy gyllid y grant refeniw cefnogi pobl. |
| Sir Ddinbych | Prosiect adsefydlu a chymorth y Rhyl | NACRO Cymru | Rhedeg gwasanaeth adsefydlu a chymorth yn y Rhyl yn gweithio gyda chleientiaid a oedd cyn hynny yn cael llety yn y lloches nos. |
| Sir Ddinbych | Gwasanaeth cynghori Sir Ddinbych ym maes tai | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yn Sir Ddinbych, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Sir y Fflint | Cynllun bondiau Sir y Fflint | Cyngor Cenedlaethol YMCAs Cymru | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Sir y Fflint | Gwasanaeth cynghori Sir y Fflint | Shelter Cymru | Cynnal gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yn Sir y Fflint, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Sir y Fflint | Llety ar rent gan landlordiaid yn y sector preifat | YMCA | Recriwtio landlordiaid i'r cynllun bondiau a weithredir yn Sir y Fflint, gan gyflenwi mwy o dai ar rent i'r cynllun bondiau. |
| Gwynedd | Gwasanaeth adsefydlu dydd y Santes Fair | Cymdeithas Tai Gogledd Cymru | Cyflogir tri gweithiwr adsefydlu/gwasanaeth dydd yn yr hostel yn ystod y dydd i roi cyngor a chymorth adsefydlu i gleientiaid, gan eu helpu i symud ymlaen i lety. |
| Gwynedd | Hostel mynediad uniongyrchol y Santes Fair | Cymdeithas Tai Gogledd Cymru | Darparu llety i hyd at wyth o bobl ddigartref. |
| Gwynedd | Cyngor cymunedol annibynnol ar dai | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yng Ngwynedd, gyda sicrwydd ansawdd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | Cynllun bondiau Agorfa | Agorfa | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Merthyr Tudful | Cyngor ar dai ym Merthyr Tudful | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai ym Merthyr Tudful, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Merthyr Tudful | Iechyd meddwl a chymorth Merthyr Tudful | Gofal Cymru | Cyflogi gweithiwr arbenigol iechyd meddwl a digartrefedd i ddarparu cyngor mewn cymorthfa deithiol. |
| Sir Fynwy | Cynllun bondiau gogledd Sir Fynwy | Solas | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Sir Fynwy | Gwasanaeth allgymorth a chymorth i bobl ifanc | Cymuned Wallich Clifford | Y nod yw atal digartrefedd ymysg pobl ifanc a darparu atebion allgymorth i bobl ifanc 16 i 25 oed, sy'n agored i niwed o ran tai, yn Sir Fynwy. |
| Sir Fynwy | Gwasanaeth cynghori Sir Fynwy ym maes tai | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yn Sir Fynwy, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Castell-nedd/Port Talbot | Prosiect tai, cymorth a chyngor | Gofal Cymru | Cyflogi gweithiwr arbenigol iechyd meddwl a digartrefedd i roi cyngor mewn cymorthfa deithiol. |
| Castell-nedd/Port Talbot | Llwybrau ychwanegol | Caer Las Cymru | Darparu gwasanaethau allgymorth, cymorth a tharo-mewn i gleientiaid digartref y gallai fod angen eu cyfeirio ymlaen oherwydd camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, eu bod yn gyn-droseddwyr, addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. |
| Castell-nedd/Port Talbot | Bwrdd bondiau Dewis | Dewis Cyf. | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Castell-nedd/Port Talbot | Gwasanaeth cynghori Castell-nedd Port Talbot | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Casnewydd | Gwasanaeth tai, adsefydlu ac iechyd | Big Issue Cymru | Darparu help a chefnogaeth i werthwyr Big Issue yn ardal Casnewydd. |
| Casnewydd | Cynllun bondiau Nashmove | Solas | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Casnewydd | Tîm ymyrryd Casnewydd i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd | Cymuned Wallich Clifford | Cysylltu â'r rhai sy'n cysgu ar y stryd a darparu cymorth dyngarol, gan roi cyngor a chysylltu ag asiantaethau perthnasol ar ran y cleientiaid hyn. |
| Casnewydd | Cynllun bondiau De Sir Fynwy | Solas (NASH gynt) | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Casnewydd | Canolfan ddydd Casnewydd | Solas | Darparu canolfan ddydd i bobl ddigartref sydd, yn ogystal â darparu cyfleusterau sylfaenol, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hefyd yn rhoi cyfle i gael hyfforddiant. |
| Casnewydd | Gwasanaeth cynghori Casnewydd ym maes tai | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Sir Benfro | Cynllun cynghori, adsefydlu a bondiau | PATH | Darparu cyngor gyda budd-daliadau, cyngor sylfaenol am dai ac eiriolaeth, cymorth adsefydlu a chynllun bondiau i gleientiaid digartref yn Sir Benfro. |
| Sir Benfro | Gwasanaeth cynghori Sir Benfro ym maes tai | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Powys | Cynllun gwarant blaendal Powys | Tai Trothwy Cyfyngedig | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Rhondda Cynon Taf | Cyngor annibynnol cymunedol am dai | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Rhondda Cynon Taf | Gwasanaethau cyfryngu cymunedol (RhCT) | Gwasanaeth cyfryngu cymunedol | Cyflogi gweithiwr cyfryngu digartrefedd i weithio gyda chanolfan gynghori RhCT ym maes tai i helpu i atal digartrefedd mewn achosion lle mae teuluoedd/rhieni yn chwalu a pherthynas â landlordiaid sector preifat yn mynd ar chwâl. |
| Abertawe | Cyrchu at allgymorth aml-ddisgyblaethol | Caer Las Cymru | Darparu allgymorth, a gwasanaeth cynghori taro-mewn i gleientiaid digartref y gallai fod angen eu cyfeirio oherwydd camddefnyddio sylweddau, materion iechyd meddwl neu fudd-daliadau ac ati. |
| Abertawe | Gwasanaeth tai, adsefydlu ac iechyd | Big Issue Cymru | Darparu help a chefnogaeth i werthwyr Big Issue yn ardal Abertawe. |
| Abertawe | Bwrdd bondiau Abertawe | Cymuned Wallich Clifford | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Abertawe | Gwasanaeth digartrefedd a chyfryngu i bobl ifanc | Barnardos Cymru | Darparu asesiad gwaith cymdeithasol a chymorth i bobl ifanc sy'n ddigartref, neu dan fygythiad o ddigartrefedd, drwy hwyluso'r ffordd iddynt ddychwelyd at eu rhieni neu i'r cartref teuluol estynedig. Hwyluso mynediad at lety saff a diogel mewn ffordd wedi'i chynllunio, gan osgoi digartrefedd. |
| Abertawe | Tîm ymyrryd Abertawe i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd | Wallich Clifford | Cysylltu â'r rhai sy'n cysgu ar y stryd, rhoi cyngor a chysylltu ag asiantaethau perthnasol ar ran y cleientiaid hyn. |
| Tor-faen | Prosiect cymunedol cyngor am arian | CAB Tor-faen | Cynnig gwasanaeth taro-mewn cyngor am arian i bobl sydd ag ôl-ddyledion rhent/morgais gan osgoi achosion adfeddiannu. |
| Tor-faen | Cymorth iechyd meddwl a | Gofal Cymru | Cyflogi gweithiwr arbenigol iechyd meddwl a digartrefedd i roi cyngor mewn cymorthfa |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | digartrefedd | | deithiol. |
| Tor-faen | Cynllun bondiau Tor-faen | Solas (NASH gynt) | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Tor-faen | Gwasanaeth cynghori Torfaen ym maes tai | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Bro Morgannwg | Bedyddwyr y Tabernacl | Home Access Trust | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Bro Morgannwg | Gwasanaeth cynghori Bro Morgannwg ym maes tai | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai ym Mro Morgannwg, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Wrecsam | Gwasanaeth dodrefnu'r cartref | WATCH | Darparu dodrefn ail law i gleientiaid a fu'n ddigartref, sydd wedi cael llety. |
| Wrecsam | Gwarchod dros y gaeaf | WATCH | Darparu sachau cysgu a blancedi i'r rhai nad oes modd cynnig lle iddynt yn y lloches nos ac sydd felly'n cysgu ar y stryd dros fisoedd y gaeaf. |
| Wrecsam | Cyngor ar dai yn Wrecsam | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yn Wrecsam, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Wrecsam | Prosiect pobl ifanc Wrecsam | CAIS Cyf. | Cysylltu â phobl ddigartref hyd at 25 oed sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, darparu canolfan taro-mewn, mynediad at gyngor yn ymwneud â thai a gwasanaeth cyfeirio. |
| Wrecsam | Gwasanaeth llety argyfwng dros nos | Barnardos Cymru | Darparu cynllun llety argyfwng i bobl ifanc sy'n agored i niwed, darparu llety dros nos gyda theuluoedd sydd wedi cael eu cymeradwyo hyd nes y darperir llety tymor hir. |
| Wrecsam | Cynllun cyngor ar dai a bondiau Compass | Barnardos | Galluogi pobl na fyddent yn gallu fel arall i gyrchu at lety preifat ar rent drwy ddarparu cynllun bondiau. |
| Ynys Môn | Y Goleudy | Y Goleudy | Darparu cyfleusterau sylfaenol i bobl ddigartref a'r rhai sy'n cysgu ar y stryd mewn amgylchedd canolfan ddydd. |
| Ynys Môn | Gwasanaeth cynghori Ynys Môn | Shelter Cymru | Darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ym maes tai yn Ynys Môn, gyda sicrwydd ansawdd. |
| Ynys Môn | Strategaeth digartrefedd | Digartref Ynys Môn | Darparu help a chefnogaeth i bobl ddigartref er mwyn iddynt ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i fyw'n annibynnol. |

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Trefnydd restru ei hymrwymiadau swyddogol y tu allan i Gaerdydd ers 1 Ionawr 2005, gan nodi'r dyddiad, y lleoliad a'r dull teithio ym mhob achos? (WAQ42109) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Y Prif Weinidog:** Dengys y tablau isod y nifer o ymrwymiadau y mae'r Trefnydd wedi ymgymryd â hwy y tu allan i Gaerdydd er 1 Ionawr 2005.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ateb eich gofynion.

**Jane Hutt AC**

| **Dyddiad** | **Ymrwymiad** | **Lleoliad** | **Dull Teithio** |
|---|---|---|---|
| 04/01/05 | Galw Iechyd Cymru | Abertawe | Car swyddogol |
| 04/01/05 | Llety Gofal Ychwanegol<br>Canolfan Ddamweiniau Leol Castell-nedd Port Talbot | Port Talbot | Car swyddogol |
| 05/01/05 | Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais | Powys | Car swyddogol |
| 05/01/05 | Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi | Machynlleth | Car swyddogol |
| 05/01/05 | Ysbyty Cymunedol Dolgellau | Dolgellau | Car swyddogol |
| 09/02/05 | Lansio'r strategaeth ar dlodi ymhlith plant | Y Rhondda | Car swyddogol |
| 16/02/05 | Cwrdd â Margaret Curran ASA | Glasgow | Car swyddogol ac awyren BMI Baby |
| 16/02/05 | Senedd yr Alban | Caeredin | Car swyddogol |
| 23/03/05 | Lansio cynhadledd rhianta corfforaethol Rhoi Plant yn Gyntaf | Llandrindod | Car swyddogol |
| 24/03/05 | Lansiad 'There is more to it than wide doors' | Casnewydd | Mynd gyda swyddog |